Cyngor Cymuned Cerrigydrudion

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 22ain Awst 2018

Presennol – Meirion Hughes Cadeirydd, John D Jones, Einion Edwards, Ieuan Jones, Prys Ellis, Cynghorydd Sir, Peter Lewis, Caerwyn Roberts Clerc.
Ymddiheuriadau - Guto Jones, Ffion Williams, Maria Roberts, Trystan Humphreys.
Datgan diddordeb – Dim datganiad
Cofnodion -Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 27ain Mehefin 2018.

Materion yn Codi

[1]] Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu'r bresennol

[1.1] Diffibriliwr/Glasfryn

Dywedodd y clerc iddo dderbyn casgliad o £580.00 gan Guto Jones a penderfynwyd i'r Cyngor dalu'r gwahaniaeth ar gyfer prynu diffibriliwr. Y clerc i wneud trefniadau

[1.2] Coed Mynwent Ucha'r Eglwys/ Torio'r Coed

Nodwyd bod y mater yn parhau

[1.3] Baner Bro Hiraethog

Dywedodd y clerc bod Trystan Humphreys yn trefnu i osod y faner yn yr ystafell snwcer.

[1.4] Grŵp Cynefin/ Anghenion Tai Cymuned Cerrig-y-Drudion

Deallwyd bod cynrychiolydd y grŵp yn awyddus i gwrdd y Cyngor, y clerc i drefnu ar gyfer y cyfarfod nesaf.

[1.5] Gwasanaeth Sgip

Dywedodd y Cyng Peter Lewis bod y Cyngor Sir yn bwriadu dosbarthu taflen wybodaeth ar gyfer y gwasanaeth yn y dyfodol agos.

[1.6] Pont Pentrellyncymer

Deallwyd bod y gwaith i atgyweirio'r bont heb ei wneud a bod y Cyngor Sir yn datgan bod y gwaith ar y rhestr i gael sylw

Y Brif Agenda

[1.7] Cwmni Innogy /Fferm Wynt Clocaenog

Cyfeiriodd y clerc at ohebiaeth gan y cwmni yn datgan ei bod yn bwriadu cynnal cyfarfod yn y dyfodol agos i drafod syniadau ar gyfer ceisiadau fydd o bosib i gael ei ariannu o gronfa'r fferm wynt. Penderfynwyd trafod syniadau yn y cyfarfod nesaf.

[1.8] Ceisiadau Cynllunio

[a] Creu storfa ddefaid, a tipio trelar arfaethedig. Aelwyd Brys, Cerrig-y-Drudion
[b] Adnewyddu ac addasu gan gynnwys mannau parcio, a gwaith carthffosiaeth ayb. 4/5 Green Bank, Cerrig-y-Drudion.
Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r ddau gais uchod.

[1.9] Croesi'r ffordd wrth London House
Dywedodd y clerc iddo gwrdd swyddogion y Cyngor Sir ynglŷn â cheisio diogelu cerddwyr yn enwedig plant wrth groesi'r ffordd. Cytunodd peiriannydd y Cyngor Sir i ystyried y cynnig i osod terfyn 'ffens' ar fin y ffordd.

[2] Shelter
Y clerc i gysylltu gyda Trystan Humphreys ynglŷn to concrit y shelter

[2.1] Materion Amrywiol
Y clerc i ddilyn y materion ymlaen
[a] Tyllau yn y ffordd ar allt Perthi
[b] Golau Arafu Traffig ar Stryd King angen sylw
[c] Gwrych ar fin llwybr Maes Aled wedi ei dorri, ond heb ei orffen.

[2.2] Clerc y Cyngor
Dywedodd y Clerc ei fod yn bwriadu ymddeol yn niwedd Mawrth 2019 a gofynnwyd iddo wneud trefniadau i lenwi'r swydd

[2.3] Derbyniadau
Casgliad Glasfryn tuag at brynu Diffibriliwr £580.00